

# Gwasanaethau Campws
# Campus Services

## Adroddiad Blynyddol yr Amgylchedd 2022/23









# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Rhagarweiniad | 3 |
| Rheolaeth Amgylcheddol a Chydymffurfiaeth | 4 |
| Amcanion a Thargedau 22/23 | 5 |
| Rheoli Gwastraff a'r Economi Gylchol | 6 & 7 |
| Defnydd Ynni | 8 |
| Defnydd Dŵr | 9 |
| Carbon, Allyriadau a Gollyngiadau | 10 |
| Teithio a Thrafnidiaeth | 11 |
| Bioamrywiaeth | 12 |

# RHAGARWEINIAD

Mae'r Adroddiad Amgylcheddol blynyddol hwn yn amlinellu perfformiad a chyflawniadau'r Brifysgol yn ystod blwyddyn academaidd 2022-23, yn enwedig o ran ei nodau a'i hamcanion amgylcheddol cytunedig. Mae'r Adroddiad hefyd yn rhoi sylwadau ar rwymedigaethau cydymffurfio ac yn gwerthuso cynhyrchiant gwastraff y Brifysgol, y defnydd o ynni a dŵr, cynhyrchu allyriadau carbon, tueddiadau mewn teithio a chludiant ac ymdrechion i wella bioamrywiaeth.

Gosodwyd saith amcan a tharged amgylcheddol craidd yn 2022-23. Dewiswyd rhai targedau i ddeall yn well y gwastraff a gynhyrchir gan y Brifysgol a'r allyriadau carbon o deithio a chludiant a chanolbwyntiwyd yn benodol ar wella ei systemau ar gyfer casglu a dadansoddi data. Roedd hyn yn cynnwys datblygu proses i fesur gwastraff o brojectau adeiladu ac adnewyddu a diffinio'r broses o gyfrifo allyriadau cyfwerth â $CO_2$ ($CO_2e$) sy'n gysylltiedig â myfyrwyr yn teithio rhwng eu cartrefi a'r brifysgol. Nod amcanion eraill oedd lleihau'r defnydd o adnoddau naturiol a chynyddu bioamrywiaeth, a ysgogodd y gwaith o greu cynlluniau rheoli newydd i leihau'r defnydd o ddŵr yn y Brifysgol a gwella cynefinoedd glaswelltir ar gyfer bywyd gwyllt ar draws ystad y Brifysgol.

Ym mis Tachwedd 2022 gosododd y Brifysgol darged i leihau allyriadau $CO_2e$ Cwmpas 1 a 2 25% o lefelau 2018/19 erbyn 2025. Cadarnhaodd y data o 2022/23 y bu gostyngiad o 28.9% mewn allyriadau ers 2018/19 o adeiladau'r Brifysgol, neu'r hyn sy'n cyfateb i 2,742 tunnell o $CO_2e$. Yn galonogol, gostyngodd allyriadau carbon Cwmpas 1 a 2 y Brifysgol 97.33 tunnell arall yn 2022/23, a barhaodd ar y llwybr i sicrhau gostyngiad o 25% erbyn 2025.

Cymerodd dros 10% o staff ran yn arolwg teithio staff 2023. Datgelodd y canlyniadau bod 93% o'r staff a holwyd yn defnyddio ceir wedi'u pweru gan betrol a disel i gymudo i'r gwaith, tra bod 7% o'r staff yn gyrru cerbydau trydan batri, trydan hybrid neu drydan hybrid plygio i mewn. Yn ogystal, cadarnhaodd yr arolwg fod diddordeb sylweddol mewn cerbydau trydan, gyda thros 45% o'r staff a holwyd yn nodi eu bod wedi meddwl am brynu un.

Gostyngodd cynhyrchiant gwastraff heb fod yn adeiladu y Brifysgol i 724.1 tunnell yn 2022/23, sy'n ostyngiad o dros 8% o 2021/22. Fodd bynnag, gostyngodd y gyfradd ailddefnyddio ac ailgylchu 2.5%. Mae gan y Brifysgol darged o gyfradd ailddefnyddio ac ailgylchu o 70% erbyn 2025, yn unol â tharged Llywodraeth Cymru, ac mae'n parhau i ddatblygu ei dealltwriaeth o ffrydiau gwastraff, gwella ymddygiad, gwella cyfleusterau ailgylchu a lleihau gwastraff lle bynnag y bo modd.

Mae'r gwaith i ffurfioli'r broses o gasglu data i fesur gwastraff o brojectau adeiladu ac ôl-osod yn mynd rhagddo, ond cynyddodd ymwybyddiaeth ac argaeledd data gwastraff adeiladu yn ystod 2022/23, fel y gwnaeth cyfathrebu rhwng contractwyr a staff y Brifysgol i gatalogio gwastraff adeiladu. Mae'r Brifysgol yn parhau i wella'r broses o gasglu data i fesur gwastraff, gan fod hyn yn hanfodol ar gyfer gwneud penderfyniadau gwybodus a rheoli gwastraff yn gynaliadwy.

Mae'r Brifysgol yn parhau i fonitro ac yn rheoli agweddau ar fioamrywiaeth fel rhan o'i System Rheoli Amgylcheddol achrededig ISO14001:2015 ac adroddir yn flynyddol ynglŷn â'r cynnydd ar fioamrywiaeth i'r Grŵp Gweithredu Cynaliadwyedd. Mae gan y Brifysgol Bolisi Amgylcheddol sy'n adlewyrchu ei hymrwymiad i fioamrywiaeth a chynaliadwyedd amgylcheddol. Gosododd y Brifysgol hefyd darged yn 2022 i gadw a gwella 30% o'i mannau gwyrdd presennol a sefydlu 30 o safleoedd newydd ar draws y campws erbyn 2030. Mae'r fenter 30 wrth 30 mewn 30 wedi dechrau cyflawni'r nod hwn ac mae 16 o safleoedd eisoes wedi'u dewis. Bydd safleoedd ychwanegol yn cael eu dewis a'u cynnwys dros y chwe blynedd nesaf. Bydd yr ardaloedd newydd yn darparu cynefinoedd cyfoethog i rywogaethau lleol, yn sefydlu cysylltiadau ag ardaloedd gwyllt eraill ger ystad y Brifysgol ac yn helpu i gynyddu bioamrywiaeth leol a helaethrwydd rhywogaethau.

Mae'r brys i liniaru newid yn yr hinsawdd a hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol yn gofyn am ymrwymiad diwyro ac ymdrech ar y cyd. Mae camau cadarnhaol yn cael eu cymryd i leihau allyriadau $CO_2e$ Cwmpas 1 a 2, yn ogystal â gwella mentrau ailgylchu ac ailddefnyddio gwastraff. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig cydnabod yr heriau sydd o'n blaenau. Mae disodli technoleg ac offer hen ffasiwn, goresgyn arferion sydd wedi ymwreiddio'n ddwfn a mynd i'r afael ag ystyriaethau economaidd yn wynebu rhwystrau aruthrol. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddyfodol gwyrddach ac i wella ei pherfformiad amgylcheddol yn barhaus gydag ymdrechion o'r newydd i ailddefnyddio ac ailgylchu mwy o'i gwastraff, lleihau ymhellach allyriadau carbon o'r ystad adeiledig, caffael a theithio a chludiant a gwella bioamrywiaeth ar draws ei hystad.

# RHEOLAETH AMGYLCHEDDOL A CHYDYMFFURFIAETH

**BYDD PRIFYSGOL BANGOR YN PARHAU I LEIHAU EI HEFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL**

LLEIHAU DEFNYDD YNNI A DŴR.

HYRWYDDO MENTRAU TRAFNIDIAETH CYNALIADWY.

SICRHAU CYDYMFFURFIAD Â'R HOLL DDEDDFWRIAETH A GOFYNION PERTHNASOL SY'N GYSYLLTIEDIG Â'N GWEITHGAREDDAU.

LLEIHAU EIN CYFRANIAD AT HINSAWDD FYD-EANG TRWY GWTOGI BLWYDDYN AR ÔL BLWYDDYN AR EIN HALLYRIADAU NWYON TŶ GWYDR.

YMRWYMO I ATAL LLYGRU'R AMGYLCHEDD NATURIOL.

CODI YMWYBYDDIAETH AMGYLCHEDDOL AC YMWYBYDDIAETH O NODAU DATBLYGU CYNALIADWY'R CENHEDLOEDD UNEDIG YMYSG STAFF A MYFYRWYR TRWY WELL CYFATHREBU A CHYD-GYFRANNU

YMGORFFORI DATBLYGU CYNALIADWY AC YMWYBYDDIAETH O FATERION AMGYLCHEDDOL YN EIN CWRICWLA AR DRAWS Y BRIFYSGOL.

HYRWYDDO A CHYNYDDU CADWRAETH A CHYNYDD BIOAMRYWIAETH LEDLED YSTÂD Y BRIFYSGOL.

SEFYDLU AMCANION A THARGEDAU AMGYLCHEDDOL AC ADRODD AR GYNNYDD YN FLYNYDDOL.

RHEOLI GWASTRAFF TRWY LEIHAU, AILDDEFNYDDIO A HYRWYDDO AILGYLCHU.

YMGORFFORI CYNALIADWYEDD YN Y PROSESAU CAFFAEL

Busnes craidd Prifysgol Bangor yw darparu addysg ac ymchwil o ansawdd uchel a chymryd gofal da o'r staff, y myfyrwyr, y gymuned, gan ddeall bod ein gweithgareddau'n effeithio ar yr amgylchedd. Mae'r Brifysgol yn ymrwymo i wella ei pherfformiad amgylcheddol yn barhaus a bodloni gofynion ISO 14001:2015, sy'n safon o reolaeth amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Mae cynnal ardystiad ISO 14001:2015 yn sicrhau bod y Brifysgol yn lleihau ei heffaith amgylcheddol niweidiol ac yn gwella ei pherfformiad amgylcheddol cyffredinol. Mae'n gwneud hynny drwy ddarparu cynllun ar gyfer ein system rheoli amgylcheddol ac adeiladu fframwaith cadarn i gefnogi a chyflawni'r system rheoli amgylcheddol. Er mwyn ennill a chadw statws ardystiedig ISO14001:2015, caiff system rheoli amgylcheddol y Brifysgol archwiliadau allanol gan gorff archwilio allanol achrededig UKAS. I gael gwybodaeth fanylach, ewch i'r tudalennau Rheolaeth Amgylcheddol ar y wefan.

Bydd y Prifysgol Bangor nid yn unig yn ceisio diogelu ein hamgylchedd naturiol, bydd hefyd yn chwilio am gyfleoedd i'w wella, gan hyrwyddo diwylliant stiwardiaeth amgylcheddol ymhlith y staff a'r myfyrwyr a gweithio tuag at nodau datblygu cynaliadwy.

# AMCANION A THARGEDAU 2022/2023

| MAES EFFAITH | TARGED | STATWS |
|---|---|---|
| Cydymffurfiaeth Amgylcheddol | T1 Sicrhau y cydymffurfir â'r holl ddeddfwriaeth a'r rhwymedigaethau perthnasol sy'n gysylltiedig â'n gweithgareddau ac atal llygru'r amgylchedd naturiol a dangos cydymffurfiaeth | **Cyflawnwyd** |
| Rheoli Gwastraff ac Adeiladu ac Adnewyddu | T2 Creu proses i gasglu data i feintioli (tunelledd a mathau o wastraff) o brojectau gwastraff adeiladu ac ôl-osod | **Parhaus** |
| Cyfleustodau - Dŵr | T3 Creu Cynllun Rheoli Dŵr y Brifysgol i gadw a lleihau ei defnydd o adnodd prin | **Cyflawnwyd** |
| Allyriadau a Gollyngiadau (Cwmpas 3) | T4 Sefydlu methodoleg ar gyfer nodi a chyfrifo allyriadau CO2e sy'n gysylltiedig â theithio rhwng cartrefi myfyrwyr a'r Brifysgol | **Cyflawnwyd** |
| Teithio a Thrafnidiaeth | T5 Gwneud arolwg teithio Staff a Myfyrwyr i fesur allyriadau CO2e cymudo | **Cyflawnwyd yn Rhannol** |
| Bioamrywiaeth | T6a Creu a chymeradwyo Polisi Rheoli Glaswelltir Amwynder y Brifysgol | **Cyflawnwyd yn Rhannol** |
| | T6b Creu a chymeradwyo Polisi Bioamrywiaeth y Brifysgol | **Cyflawnwyd yn Rhannol** |



# RHEOLI GWASTRAFF A'R ECONOMI GYLCHOL

Mae gan y Brifysgol Bolisi Rheoli Gwastraff cadarn sy'n galw am welliant parhaus yn ein harferion rheoli gwastraff er mwyn cyflawni'r nodau a nodir yn Strategaeth Tuag at Ddyfodol Di-wastraff 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016, tra hefyd yn bodloni gofynion safon amgylcheddol ISO 14001:2015. Mae'r Brifysgol hefyd wedi mabwysiadu targed Llywodraeth Cymru i ailddefnyddio ac ailgylchu 70% o gyfanswm y gwastraff a gynhyrchir erbyn 2025. Mae cynyddu ailddefnyddio, ailgylchu, a thyfu'r economi gylchol yn lleihau allyriadau carbon yn effeithiol ac yn lleihau'r galw am adnoddau naturiol. Yn ogystal, mae lleihau gwastraff ac ailddefnyddio mwy o eitemau yn yr economi leol hefyd yn arbed costau i'r Brifysgol.

| | 2022/23 | 2021/22 | % Y NEWID O'R FLWYDDYN FLAENOROL |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y Gwastraff a Gynhyrchwyd (Tunelli Metrig) - TM) | 724.10 | 787.80 | -8.09% |
| Cyfanswm TM Wedi'i Ailddefnyddio a'i Ailgylchu (Canran y cyfanswm) | 399.56 (55.18%) | 454.51 (57.69%) | |
| Cyfanswm TM a Anfonwyd i Adfer Ynni (Canran y cyfanswm) | 324.54 (44.82%) | 333.29 (42.31%) | |
| Cyfanswm a Anfonwyd i Dirlenwi TM (Canran y cyfanswm) | 0.0 (0%) | 0.0 (0%) | |

# RHEOLI GWASTRAFF A'R ECONOMI GYLCHOL

**Targed gwastraff 2022/23**


- Creu proses i gasglu data i feintioli gwastraff (tunelledd a mathau o wastraff) o brojectau adeiladu ac ôl-osod

**Y cynnydd yn ôl y targed**

Mae'r gwaith i ffurfioli proses i gasglu data gwastraff adeiladu ac ôl-osod yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, gwelwyd cyfathrebu adeiladol a chynnydd mewn ymwybyddiaeth staff o wastraff yn ymwneud â phrojectau adeiladu yn ystod 2022/23. Mae'r ymwybyddiaeth gynyddol hon, ynghyd â gweithio'n agosach gyda chontractwyr a benodwyd yn allanol, wedi arwain at gynnydd tuag at greu proses gadarn y gellir ei chyflwyno. Bydd hyn yn arwain at ddull casglu data gwastraff tryloyw a hyderus ar gyfer pob project adeiladu ac adnewyddu yn y dyfodol.


Cododd y Brifysgol ymwybyddiaeth ymhlith staff, myfyrwyr ac ymwelwyr trwy well cyfathrebu a chyfranogiad, sgyrsiau, ymgyrchoedd, a mentrau, a'r rhaglenni craidd a gynhaliwyd yn 2022-23 oedd Gwell Ar wahân, Wythnos Ymwybyddiaeth Gwastraff ac Ymgyrch Ailddefnyddio Diwedd y Tymor Neuaddau.






# DEFNYDD YNNI




*Data CALI diwygiedig


| | 2022/23 | O'I GYMHARU Â 2018/19 | O'I GYMHARU Â 2005/06 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm Defnydd Ynni | 32,492,720 kWh | -13.5% | -30.2 |
| i. Defnydd o ynni fesul m2 | 145.38 kWh/m2 | **-11.2%** | **-43.9%** |
| ii. Defnydd o ynni fesul Cyfwerth Amser Llawn (CALI) | 3,319.66 kWh/ FTE | **-8.3%** | **-33.6%** |

## CRYNODEB O DDEFNYDD YNNI

| | 2022/23 |
|---|---|
| Cyfanswm Defnydd Trydan | 13,926,480.45 kWh |
| Cyfanswm Defnydd Nwy | 17,964,744.39 kWh |
| Cyfanswm Defnydd Olew Gwresogi | 506,383.20 kWh |
| Cyfanswm Defnydd LPG | 95,112.80 kWh |
| Cynhyrchu ar y Safle (Solar) | 110,337.64 kWh |

# DEFNYDD DŴR

| | 2022/23 | O'I GYMHARU Â 2018/19 | O'I GYMHARU Â 2005/06 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm Defnydd Dŵr | 129,867.33m3 | -14.6% | -20.0% |
| i. Defnydd dŵr fesul m2 arwynebedd llawr defnyddiol | 581.06 litr/m2 | **-12.4%** | **-35.6%** |
| ii. Defnydd dŵr fesul CALI (myfyrwyr a staff) | 13,268.06 litr/CALI | **-9.6%** | **-23.9%** |




*Data CALI diwygiedig

# CARBON, ALLYRIADAU A GOLLYNGIADAU

Yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23 gostyngodd allyriadau carbon Cwmpas 1 a 2 y Brifysgol ychydig i 6,749.20 tunnell CO2e, o'i gymharu â 9,491.9 tunnell CO2e yn 2018/19 yn seiliedig ar gyfrifiadau trydan yn ôl y lleoliad. Arhosodd allyriadau seiliedig ar y farchnad yr un fath ag allyriadau seiliedig ar leoliad gan na chafodd unrhyw drydan adnewyddadwy ardystiedig Gwarantau Tarddiad Ynni Adnewyddadwy (REGO) ei gaffael yn ystod y flwyddyn.

| CYFANSWM ALLYRIADAU CWMPAS 1 A 2 | 2022/23 | O'I GYMHARU Â 2018/19 |
|---|---|---|
| i. Dull Seiliedig ar Leoliad | 6,749.20 tunnell CO2e | -28.9% |
| ii. Dull Seiliedig ar y Farchnad | 6,749.20 tunnell CO2e | -28.9% |

Roedd cymhariaeth o weithgareddau Cwmpas 1 a 2 rhwng 2021/22 a 2022/23 yn dangos gostyngiad bach mewn nwy naturiol oherwydd newidiadau amrywiol yn y defnydd o adeiladau. Er gwaethaf gostyngiad yn y defnydd o drydan, cynyddodd ffactorau allyriadau'r Deyrnas Unedig allyriadau carbon o gymharu â'r llynedd. Gwelwyd cynnydd hefyd yn y defnydd o nwy LPG ar gyfer ein safleoedd oddi ar y grid. Gwelodd ffactorau allyriadau carbon y Deyrnas Unedig well methodoleg gan arwain at ffactor allyriadau carbon is yn lleihau triniaeth dŵr gwastraff. Gwelodd ardaloedd teithio a chludiant i gyd, heblaw am ddisel, gynnydd mewn gweithgaredd, gan arwain at gynnydd mewn allyriadau carbon.

Yn ein nod i fod mor dryloyw a chywir â phosibl gyda'n hallyriadau carbon, eleni rydym wedi gallu adrodd ar rai o'n nwyon-F aerdymheru ac oereiddio ac rydym hefyd wedi derbyn data ar deithiau busnes awyr a thrên a archebwyd drwy asiantaeth deithio'r Brifysgol. Gobeithiwn y bydd modd gwella adroddiadau cywirach ar wahanol gategorïau dros y blynyddoedd i ddod.

Mae'r Brifysgol yn parhau i archwilio cyfleoedd i leihau allyriadau carbon trwy amrywiaeth o ddulliau, ymgyrchoedd ac astudiaethau dichonoldeb.

| ALLYRIADAU CWMPAS 1 YN ÔL FFYNHONNELL | |
|---|---|
| Defnydd Nwy | 3,286.27 tunnell CO2e |
| Defnydd Olew Gwresogi | 124.96 tunnell CO2e |
| Defnydd LPG | 20.40 tunnell CO2e |
| Defnydd Petrol | 48.91 tunnell CO2e |
| Defnydd Disel | 37.10 tunnell CO2e |
| Aerdymheru a Nwyon-F oereiddio | 64.13 tunnell CO2e |
| Gweithgareddau Amaethyddol | 283.61 tunnell CO2e |
| Cyfanswm Cwmpas 1 | 3,865.38 tunnell CO2e |

| ALLYRIADAU CWMPAS 2 YN ÔL FFYNHONNELL | |
|---|---|
| Defnydd Trydan - (Dull Seiliedig ar Leoliad) | 2,883.82 tunnell CO2e |
| Defnydd Trydan - (Dull Seiliedig ar y Farchnad) | 2,883.82 tunnell CO2e |

| ALLYRIADAU CWMPAS 3 YN ÔL FFYNHONNELL | |
|---|---|
| Defnydd Dŵr | 22.95 tunnell CO2e |
| Cynhyrchu Dŵr Gwastraff | 21.43 tunnell CO2e |
| Gwastraff | 13.76 tunnell CO2e |
| Fflyd Lwyd | 116.72 tunnell CO2e |
| Cerbydau ar Brydles (Hurio Car) | 27.69 tunnell CO2e |
| Teithio Busnes[1] | 612.95 tunnell CO2e |
| Cadwyn Gyflenwi (Caffael) | 34,240.37 tunnell CO2e |
| Cyfanswm Cwmpas 3 | 35,055.87 tunnell CO2e |

| STORIO YN ÔL DALIADAU TIR | |
|---|---|
| Allyriadau tir | -895.86 tunnell CO2e |

| CYFANSWM YR ALLYRIADAU A ADRODDWYD - CWMPAS 1, 2 A 3 | |
|---|---|
| Cyfanswm gyda thrydan seiliedig ar leoliad | 41,805.07 tunnell CO2e |
| Cyfanswm gyda thrydan seiliedig ar y farchnad | 41,805.07 tunnell CO2e |

1 Mae Teithio Busnes yn cynnwys dim ond rhan o'r allyriadau trên ac awyr sydd wedi'u mesur trwy Asiant Teithio'r Brifysgol.

# TEITHIO A THRAFNIDIAETH

**Targed teithio a thrafnidiaeth**

- Gwneud arolwg teithio staff a myfyrwyr i fesur allyriadau $CO_2e$ cymudo

**Y cynnydd yn ôl y targed**

Cyflawnwyd y targed teithio a thrafnidiaeth ar gyfer 2022/23 yn rhannol, wrth i'r arolwg teithio staff gael ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2023. Er bod llawer o gynllunio ac ymgynghori ar gyfer yr arolwg teithio myfyrwyr, ni chafodd ei gwblhau tan fis Rhagfyr 2023.

Darparodd yr arolwg teithio staff ddata defnyddiol i fesur $CO_2e$ cymudo a dulliau teithio ymhlith y staff a arolygwyd, yn ogystal â darparu rhywfaint o fewnwelediad i deithio rhwng safleoedd a'r defnydd o gyfleusterau beicio. Roedd hefyd yn mesur ymwybyddiaeth a chanfyddiadau staff o'r opsiynau teithio cynaliadwy sydd ar gael iddynt.

**Mae rhai o uchafbwyntiau arolwg teithio staff 2023 yn cynnwys:**

- 13.7 milltir oedd y pellter cymudo cyfartalog
- Roedd 93% yn defnyddio cerbydau petrol neu ddisel
- Cwblhawyd 60% o deithiau mewn cerbydau ag un teithiwr ynddo (gyrwyr unigol)
- Cwblhawyd 10% o deithiau yn rhannu cerbyd â phreswylwyr eraill (rhannu car)
- Roedd 3.5% yn defnyddio cerbyd trydan batri, tra bod 2.3% ac 1.2% yn defnyddio cerbydau trydan hybrid a cherbydau trydan hybrid plygio i mewn yn y drefn honno
- Cwblhawyd 9% o deithiau ar feic
- Cwblhawyd 13% o deithiau drwy gerdded
- Y meintiau injan mwyaf cyffredin mewn cerbydau a ddefnyddiwyd gan staff a holwyd oedd 1.0 litr (18.6%), ac yna 2.0 litr (17.3%), 1.2 litr (14.6%) ac 1.6 litr (14%)
- Mae data'r arolwg yn dangos bod dros 45% o'r staff a ddychwelodd ddata wedi meddwl am brynu cerbyd trydan, ond o'r rheini dywedodd 17.1% nad oeddent yn gwybod pryd y byddant yn prynu un a dywedodd 29.8% eu bod wedi penderfynu peidio â phrynu un ar hyn o bryd.
- Dywedodd 35.1% o'r staff y byddai ganddynt ddiddordeb mewn rhannu car gydag aelod arall o staff, dywedodd 13.8% eu bod eisoes yn rhannu car ag aelod arall o staff a dywedodd 51.1% o'r ymatebwyr nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn rhannu ceir.
- 'Tocynnau bws a thrên rhatach' oedd y cymhelliad/dewis arall i yrru a ddewiswyd fwyaf ymhlith y staff a arolygwyd (31.2%), ac yna 'gwasanaethau bws amlach' (27.7%) a 'chymhellion ar gyfer defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus' (25.2%)

Darllenwch fwy am y Cerbydau Allyriadau Sero yma: Fflyd Gwasanaethau'r Campws





# BIOAMRYWIAETH

Gosododd y Brifysgol darged yn 2022 i gadw a gwella 30% o'i mannau gwyrdd presennol a sefydlu 30 o safleoedd newydd er budd bywyd gwyllt ar draws ei hystad erbyn 2030.

Mae'r targed hwn yn cael ei gyflawni gan y fenter 30 wrth 30 erbyn 30, a bydd y 30 ardal newydd yn darparu cynefinoedd cyfoethog i rywogaethau lleol, yn sefydlu cysylltiadau ag ardaloedd gwyllt eraill ger ystad y Brifysgol ac yn helpu i gynyddu bioamrywiaeth leol a helaethrwydd rhywogaethau.

Dewiswyd 16 o safleoedd ar gyfer 30 wrth 30 erbyn 30 yn 2022/23, a rhwng Mai a Mehefin 2023 cynhyrchwyd cynlluniau rheoli safle a chynhaliwyd arolygon o blanhigion mewn llawer o safleoedd ar hyd Ffordd y Coleg ac o amgylch y neuaddau preswyl ar safle Ffriddoedd.

### Targedau bioamrywiaeth

Roedd gan y Brifysgol ddau darged bioamrywiaeth yn 2022-23:

- Creu a chymeradwyo Polisi Rheoli Glaswelltir Amwynder y Brifysgol
- Creu a chymeradwyo Polisi Bioamrywiaeth y Brifysgol

### Y cynnydd yn ôl y targedau

Yn ystod 2022/23 ysgrifennwyd Polisi Rheoli Glaswelltir Amwynder, yn ogystal â Chynllun Rheoli Glaswelltir Amwynder i gefnogi a chyflawni'r Polisi. Mae targed bioamrywiaeth ychwanegol wedi'i osod ar gyfer 2023/24 i gymeradwyo a gweithredu'r Polisi a'r Cynllun rhwng 2023-25, a fydd yn rhagnodi'r amrywiol dechnegau rheoli glaswelltir i'w defnyddio mewn safleoedd 30 wrth 30 erbyn 30 ac ar draws ystad ehangach y Brifysgol.

Cyflawnwyd y targed i greu a chymeradwyo Polisi Bioamrywiaeth y Brifysgol yn rhannol, gan fod Polisi Bioamrywiaeth drafft wedi'i ysgrifennu ond heb ei gymeradwyo eto.

Mae'r Brifysgol yn parhau i ddatblygu ei Chynllun Gwella Bioamrywiaeth ac mae ei gwblhau a'i gymeradwyo yn darged bioamrywiaeth ar gyfer 2023-24.

I gael gwybodaeth fanwl am fioamrywiaeth ym Mhrifysgol Bangor, gweler:
Adran 6:  Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau - Adroddiad 2022